

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL

Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Diwrnod Rhyngwladol – cofiwch ein bod yn dathlu Diwrnod Rhyngwladol yn yr Ysgol Gymraeg ar ddydd Gwener, Hydref 19eg. Mi fydd pob dosbarth yn astudio gwlad arbennig.

Meithrin – Cymru, Derbyn - yr Alban, Blwyddyn 1 – Sbaen, Blwyddyn 2 – Yr Eidal, Blwyddyn 3 – yr Almaen, Blwyddyn 4 – Ffrainc, Blwyddyn 5 – Yr Ariannin, Blwyddyn 6 – Yr India.

Rydym wedi bod yn gwahodd rhieni / gwarcheidwaid i'r ysgol yn ystod y prynhawn yn y gorffennol, fodd bynnag er mwyn gwella trefniadau iechyd a diogelwch ni fyddwn yn gwneud hyn eleni.

Mae gwahoddiad i'r disgyblion wisgo gwisg arbennig sy'n cyfleu'r wlad – gellir gwisgo baner fel clogyn os y dymunir!

Noson Agored – mi fydd cyfle i chi drafod datblygiad addysgol eich plentyn ar brynhawn **dydd Llun, Hydref 22ain** rhwng 3.30yp a 6 o'r gloch. Mi fydd angen i chwi wneud apwyntiad drwy lenwi'r ffurflen sydd ar ddrws ystafell ddosbarth eich plentyn.

Meithrin Prynhawn yn unig - mi fydd y noson agored ar gyfer disgyblion y Meithrin sy'n mynychu yn y prynhawn yn unig ar nos Fawrth, Hydref 23ain.

Noson Agored Blwyddyn 2, dosbarth Gaenor Jones a Blwyddyn 1 dosbarth Nia Roberts— oherwydd trefniadau personol mi fydd noson agored dosbarth Miss Gaenor Jones, Bl 2 a Nia Roberts Bl 1 yn digwydd dros ddwy noson, ar nos Lun 22ain a'r nos Fawrth 23ain. Cofiwch hyn wrth nodi'r amser ar ddrws yr ystafell ddosbarth.

Anghenion Dysgu Ychwanegol - mi fydd Cathryn Pridmore o'r Adran Anghenion Dysgu Ychwanegol ar gael ar **Nos Lun, Hydref 22ain**. Mi fydd angen i chwi wneud apwyntiad drwy lenwi'r ffurflen sydd ar ddrws ei hystafell ger y Neuadd.

Gair efo'r Pennaeth - os ydych am sgwrs am unrhyw agwedd o waith yr ysgol neu addysg eich plentyn yna mi fyddaf ar gael rhwng 3.30 a 6.00 ar y ddwy noson.

Peintio'r shediau ger y Meithrin – rydym yn edrych am wirfoddolwyr i wella cyflwr y siediau ger y Meithrin, os ydych ar gael i helpu yna cysylltwch â mi. O bosib gall criw ohonoch weithio gyda'ch gilydd. Mi wna i ddarparu'r paent, y te a'r bisgedi!

Gwyliau hanner tymor – mi fydd yr ysgol yn cau am 3.30 ar ddydd gwener, Hydref 26ain ac yn ail agor ar ddydd Llun, Tachwedd 5ed.

Diwrnod Hyfforddiant mewn Swydd – mi fydd yr ysgol ar gau ar gyfer hyfforddiant staff ar ddydd Gwener, Tachwedd 16eg.

Os oes gennych unrhyw bryderon am addysg eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

International Day – please remember that it is International Day at Ysgol Gymraeg on Friday, October 19th. Each class will be studying a different country. Nursery – Wales, Reception – Scotland, Year 1 – Spain, Year 2 – Italy, Year 3 – Germany, Year 4 – France, Year 5 – Argentina, Year 6 – India. In previous years we have been inviting parents to come to school in the afternoon, however in order to improve health and safety we will not be doing this on Friday. Pupils are invited to wear outfits that represent the different countries – children may wear a flag as a cloak if they wish.

Open Evening – You will be given an opportunity to discuss your child’s educational development on **Monday, October 22nd**, between 3.30 – 6 o’clock. You will need to make an appointment by completing the form on your child’s classroom door.

Nursery afternoon only -the open evening for Nursery children who attend in the afternoon only will be on Tuesday, October 23rd.

Open evening for Year 2 Gaenor Jones and Year 1 Nia Roberts - Due to personal arrangements the open evening for Miss Gaenor Jones, Year 2 and Nia Roberts Year 1 will take place over two evenings, Monday 22nd and Tuesday 23rd. Please remember this when completing the form on the class door.

Additional Learning Needs - Cathryn Pridmore of the Additional Educational Needs Department will be available on Monday evening, October 22nd. You will need to make an appointment by completing the form on the door of her room near the Hall.

A word with the Headteacher – if you wish to have a chat regarding your child’s education or any aspect of school life then I will be available from 3.30 – 6.00 on both evenings.

Painting the sheds in the Meithrin – we are looking for volunteers to improve the condition of the sheds near the Meithrin, if you are available then please contact me, possibly a group of you could work together! I will provide the paint, tea and biscuits!

Half term holidays – the school will close at 3.30 on Friday, October 26th and will re-open on Monday, November 5th.

In Service Training Day – the school will be closed for staff training on Friday, November 16th.

If you have any worries regarding your child’s education then please contact me immediately.

R C Williams
Headteacher
15/10/2018